# Athro Dosbarth – Manyleb y Person Generig

| | |
|---|---|
| **Teitl y Swydd:** | Athro Dosbarth |
| **Cyflog a Graddfa:** | Graddfa genedlaethol safonol yn unol â'r ddogfen *Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol* cyfredol |
| **Ysgol:** | |
| **Rheolwr/Rheolwyr Llinell:** | Y Pennaeth, aelodau o'r Uwch Dîm Arwain (UDA) a Chorff Llywodraethu'r ysgol |
| **Cyfrifoldeb Goruchwylio:** | Gall y deiliad swydd fod yn gyfrifol am oruchwylio gwaith Cynorthwywyr Dosbarth sy'n berthnasol i'w cyfrifoldebau |

---

## Cymwysterau

1. Statws athro cymwysedig neu gyfwerth cydnabyddedig (ffurflen gais).

## Profiad

2. Profiad addysgu gyda'r ystod oedran a/neu bwnc/pynciau y gwneir cais amdano.

## Gwybodaeth a Sgiliau

Y gallu i wneud y canlynol yn effeithiol:

3. Creu amgylchedd dysgu ysgogol a diogel.
4. Sefydlu a chynnal awyrgylch gwaith pwrpasol.
5. Cynllunio, paratoi a chyflwyno'r cwricwlwm fel y bo'n berthnasol i'r grŵp/pwnc oedran a gallu yr ydych yn ei addysgu, mentrau perthnasol eraill a pholisïau'r ysgol ei hun.
6. Asesu a chofnodi cynnydd dysgu disgyblion i lywio'r camau nesaf a monitro cynnydd.
7. Dangos ymrwymiad i gyfle cyfartal a defnyddio amrywiaeth o strategaethau ac arferion i hyrwyddo'r materion diwylliannol a chydraddoldeb amrywiol yn yr ystafell ddosbarth.
8. Addysgu gan ddefnyddio amrywiaeth eang o strategaethau i wneud y gorau o gyflawniad pob plentyn gan gynnwys y rhai ag anghenion addysgol arbennig a chyflawnwyr uchel ac i gwrdd â gwahanol arddulliau dysgu.
9. Annog plant i ddatblygu hunan-barch a pharch at eraill.
10. Defnyddio ystod eang o strategaethau rheoli ymddygiad effeithiol yn llwyddiannus.
11. Cyfathrebu i amrywiaeth o gynulleidfaoedd (ar lafar, yn ysgrifenedig, gan ddefnyddio TGCh fel y bo'n briodol).
12. Defnyddio TGCh i hybu dysgu disgyblion, a defnyddio offer TGCh cyffredin er eu lles eu hunain a disgyblion.

## Ymrwymiad

Dangos ymrwymiad i'r canlynol:

- a. cydraddoldeb
- b. hyrwyddo gweledigaeth ac ethos yr ysgol
- c. amgylcheddau dysgu ysgogol o ansawdd uchel
- ch. uniaethu'n gadarnhaol a dangos parch at holl aelodau'r ysgol a'r gymuned ehangach
- d. hunanddatblygiad proffesiynol perthnasol parhaus
- dd. diogelu ac amddiffyn plant